

# Heroes All!

## The remarkable story of the *Hindlea* rescue of 1959

# Arwyr Moelfre!

## Stori anhygoel achub yr *Hindlea* yn 1959

**Robin Evans**

# LLEOLIAD LLONGDDRYLLIAD YR *HINDLEA*
## LOCATION OF THE WRECK OF THE *HINDLEA*





*We would like to thank:*

*Moelfre Partnership wish to thank the following for their efforts and support in producing this first booklet in a popular series on the history of Moelfre.*

*Thanks to the author, Robin Evans, and individual members of Moelfre Partnership who gave additional information and comments which contributed to the final publication. David Evans and David Arbonne Owens were key figures in ensuring a comprehensive archival photographic content. We are also indebted to Anglesey County Archives Service for permission to reproduce the photographs and documents on pages 7,15 & 23. Particular thanks are due to Mel Parry for all the design work and the excellent modern photographs.*

*Thanks are also due to Councillor Derlwyn Hughes for coordinating the project and to Elfyn Roberts of Menter Môn. Rhian Pierce Jones and Valmai Rees were responsible for the Welsh language text and proof reading. We acknowledge the generous financial support of the Carnegie Trust and the usual high standard of support from Menter Môn.*






# Heroes All!

**The remarkable story of the *Hindlea* rescue of 1959**

# Arwyr Moelfre!

**Stori anhygoel achub yr *Hindlea* yn 1959**



*Diolchiadau:*

*Hoffai Partneriaeth Moelfre ddiolch i'r canlynol am eu cefnogaeth a'u cymorth wrth baratoi'r llyfryn hwn mewn cyfres boblogaidd am hanes Moelfre.*

*Diolch i'r awdur, Robin Evans, i aelodau unigol am wybodaeth a sylwadau ychwanegol. Diolch i David Evans a David Arbonne Owens am gyfrannu tuag at y casgliad cynhwysfawr o ffotograffau. Diolch hefyd i Wasanaeth Archifau Ynys Môn am ganiatâd i ddyblygu lluniau a dogfennau ar dudalennau 7, 15 a 23. Diolch yn arbennig i Mel Parry am yr holl waith dylunio ac am y ffotograffau modern, safonol.*

*Diolch i'r cynghorydd Derlwyn Hughes am gydlynu'r prosiect ac i Elfyn Roberts o Fenter Môn. Diolch i Rhian Pierce Jones am gyfieithu'r testun i'r Gymraeg ac i Valmai Rees am ddarllen y proflenni ac addasu'r pennill gan Percy Hughes i'r Saesneg. Hoffem gydnabod y gefnogaeth barod arferol gan Fenter Môn a chefnogaeth ariannol y Carnegie Trust.*







# Heroes all!

## The remarkable story of the *Hindlea* rescue of 1959

**The modern day village of Moelfre is a popular tourist destination**
**Mae pentref Moelfre yn gyrchfan boblogaidd i dwristiaid**



### A seafaring and life saving community

The village of Moelfre on the east coast of Anglesey in North West Wales has played a prominent role in the country's maritime history. Before the 19th century it was a poor hamlet which relied heavily on agriculture and fishing, but nevertheless produced many ship owners, captains and sailors. Its population almost doubled during the early decades of the century as stone quarrying developed in the region with agriculture and fishing remaining an integral part of people's lives.

During the second half of the 19th century, the main development was that Moelfre evolved into a maritime community, with the vast majority of its male inhabitants embarking on a career at sea. They sailed in all types of vessels to all parts of the world carrying every type of cargo. They were ordinary sailors, able-bodied sailors, mates, ship's carpenters, lamptrimmers, cooks, whalers, coastal captains and master mariners. Wherever ships sailed, Moelfre men could be found. Some made a fortune from a lifetime at sea, others lost their lives and left widows, orphans and grieving mothers.

It is not surprising with such a varied maritime history that Moelfre became the natural home for a lifeboat. It is possible that Moelfre had a lifeboat as early as 1830 and by the 1850s the village had its own lifeboat station. Moelfre Bay often provided shelter for all kinds of vessels in





# Arwyr Moelfre!

## Stori anhygoel achub yr *Hindlea* yn 1959

### Cymuned ddewr â heli yn ei gwaed

Mae pentref Moelfre wedi'i leoli ar arfordir dwyreiniol Ynys Môn yng ngogledd-orllewin Cymru ac mae iddo le amlwg yn hanes morwrol Cymru. Cyn y 19eg ganrif roedd yn bentref bychan, tlawd a dibynnai'n helaeth ar amaethyddiaeth a physgota er bod nifer o berchnogion llongau, capteiniaid a morwyr hefyd yn hanu o'r pentref. Yn ystod degawdau cyntaf y ganrif, fe welwyd cynnydd mawr yn y boblogaeth, a hynny yn sgil y datblygiad mewn chwarela yn yr ardal. Er hynny, roedd ffermio a physgota yn dal i chwarae rhan bwysig ym mywydau'r bobl.

Yn ystod ail hanner yr 19eg ganrif datblygodd Moelfre'n gymuned lan môr ac âi mwyafrif y bechgyn a'r dynion i weithio ar y môr. Teithient mewn pob math o longau i bob cwr o'r byd a chludai'r llongau bob math o nwyddau. Roedd rhai yn forwyr cyffredin, eraill yn forwyr profiadol, prif swyddogion, seiri, gwŷr a ofalai am lampau'r llong, cogyddion, pysgotwyr, capteiniaid yr arfordir a chapteiniaid llongau. Roedd gwŷr Moelfre yn gwneud pob math o swyddi ar y môr. Gwnaeth rhai eu ffortiwn, ond collodd eraill eu bywydau gan adael gwragedd gweddwon, plant amddifad a mamau mewn galar.



Mae Moelfre yn hen gymuned bysgota gyda chyfoeth o hanes forwrol
Meolfre is an old fishing community steeped in maritime history

O ystyried cysylltiadau'r pentref â'r môr, nid yw'n syndod iddo ddod yn gartref i fad achub. Mae'n bosibl bod bad achub ym Moelfre mor gynnar â 1830. Erbyn y 1850au roedd gan y pentref ei gorsaf bad achub ei hun. Roedd yn ddigon cyffredin i longau o bob math gysgodi rhag stormydd ym mae Moelfre a châi bad achub Moelfre ei alw allan yn aml i helpu llongau mewn trafferth. Waeth beth oedd yr argyfwng, roedd y bad achub bob amser yn barod ei ymateb – boed i achub morwr sâl neu forwr wedi'i anafu, i helpu ymwelwyr mewn trafferth, neu i gymryd rhan mewn ymgyrch chwilio ac achub fawr. Er mai ychydig o sylw sy'n cael ei roi i waith y bad achub o ddydd i ddydd, mae ambell achlysur sydd wedi denu





**Meolfre's old lifeboat station, built in the 1850's**
**Hen orsaf bad achub Moelfre, a adeiladwyd yn y 1850au**

stormy weather and the lifeboat was often summoned to help a ship in distress. Whatever the emergency, the Moelfre lifeboat responded – be it to take a sick or injured sailor off a ship, to help a lone tourist in distress, or to take part in a full search and rescue operation. Whilst there is little public acknowledgement of the day-to-day work of the lifeboats, at times the attention of the world has been focused on the bravery of the lifeboat crews. One such occasion was the afternoon of Tuesday the 27th of October 1959 off the coast of Moelfre.

**"Early on the morning of the 27th of October it appeared that the whole village was shaking such was the strength of the storm."**

## Shelter from the storm

On Friday the 23rd October 1959 Moelfre Bay was full of ships sheltering from a southwesterly gale that was blowing at Force 9 with winds gusting at around 50-55moh. This was not an unusual sight both in the age of the sailing ship and the modern vessel since Moelfre Bay provided adequate shelter from such storms. One of the ships anchored in the bay was the *Hindlea*, a 506 ton Cardiff-owned motor vessel which was sailing light from Manchester to Newport in South Wales. On that particular Friday, the crew of the *Hindlea* came ashore to procure some stores, which was a common practice for ships anchored in the bay for an unknown period. The motor mechanic of the Moelfre lifeboat, **Evan Owens**, spoke with the crew as they loaded their stores and they complained to him that the *Hindlea* was not the best of ships in bad weather. They also told him that they would be moving her to a more sheltered area near the lookout, which is precisely what they did later that day.

Such was the ferocity of the storm by early morning of the 27th of October, it appeared that the village itself was shaking to its foundations. Although the coastguard and lifeboat crew knew that an emergency might well occur in such weather, they were not unduly worried. The situation soon changed when the southwesterly wind unpredictably veered from south to north. This did not happen often but its implications were dramatic.







DAILY EXPRESS

WEDNESDAY OCTOBER 28 1959

Weather: Gales and rain

Six people die as 100 m.p.h. gale lashes Britain

# OFF-THE-ROCKS RESCUE

## Lifeboat saves eight as ship breaks up

Express Staff Reporter

FIVE men and a woman were killed by the storms which swept Britain yesterday. But the lives of eight other men were saved as their ship smashed against rocks at Moelfre (Anglesey).

Gusts of 100 miles an hour lashed the little holiday spot, driving the 500-ton Cardiff coaster Hindlea on to the jagged, black Swnt Rocks.

Then, just before the Hindlea started to break up among the 80 ft. high waves, Moelfre lifeboat took off the crew of eight.

The Hindlea, running in ballast from Manchester to Newport, had been stormbound off Moelfre for two days. Skipper Roland Chipchase, aged 54, of West End Newcastle, said she was safe until the south-westerly wind veered north.

Then she started to drag anchor towards the rocks and he ordered "Full engines" into the wind. But the howling gale won, and she was wrecked.

As the rescued seamen were given hot drinks and food in a nearby chapel, the lifeboat went out again, this time to aid the Greek-owned Essar I, taking water 1½ miles out to sea.

Express air picture shows the Hindlea fast on the rocks, with heavy seas washing over her

**Toriad o bapur newydd yn cofnodi'r digwyddiad**
**A newspaper cutting from the day after the rescue**

sylw'r byd a hynny oherwydd dewrder y criwiau. Un achlysur o'r fath oedd yr hyn a ddigwyddodd ger creigiau Moelfre ar bnawn Mawrth 27ain o Hydref, 1959.

## Cysgodi rhag y storm

Ddydd Gwener 23ain o Hydref, 1959 roedd bae Moelfre'n llawn o longau'n cysgodi rhag storm. Chwythai gwynt cryf Grym 9 o'r de-orllewin ar gyflymder o oddeutu 50-55 milltir yr awr. Yng nghyfnod y llong hwylio a'r llong fodern roedd hon yn olygfa eithaf cyffredin gan fod bae Moelfre mor gysgodol. Un o'r llongau a oedd wedi angori yn y bae oedd yr *Hindlea*, stemar 506 tunnell, oedd yn eiddo i ŵr o Gaerdydd, a oedd yn hwylio o Fanceinion i Gasnewydd yn Ne Cymru. Ar y dydd Gwener hwnnw daeth criw yr *Hindlea* i'r lan i nôl nwyddau, oedd yn arferiad digon cyffredin i longau a oedd wedi'u hangori yn y bae am gyfnod amhenodol. Bu **Evan Owens**, peiriannydd y bad achub, yn siarad gyda'r criw wrth iddynt lwytho eu nwyddau ar y llong a dywedodd rhai







Coxswain Richard (Dick) Evans S,G.M. B.E.M. R.N.L.I. 2 gold and bronze

Y Llywiwr Richard (Dic) Evans S,G.M. B.E.M. R.N.L.I. 2 aur ac efydd

Within twenty to thirty minutes, all the ships which had sought shelter in the bay were in danger. They were no longer in a sheltered weather shore but on a lee shore with mountainous seas coming in off the Irish Sea. The ships' masters immediately responded and the power ships were able to heave to and slowly move out to sea. The *Hindlea* was a different matter.

## The Hindlea in danger

In the coastguard lookout was the Coastguard Volunteer-in-Charge **Captain Owen Roberts**, a retired master mariner of the highest calibre who had a wealth of experience. The *Hindlea* was just north east of the lookout and was between a quarter and half a mile off shore. Captain Owen Roberts, from his position overlooking the point where the *Hindlea* was swaying, could see clearly that every gust and enormous wave was pounding her and he thought it inevitable that she would be dragged closer and closer to the shore.

The *Hindlea* was swinging like a pendulum on its anchor chain in winds of 80-90mph. Gusts of 104mph were recorded at the RAF station in Valley and on other coastguard stations on the island. It was said that so ferocious was the storm that the distance between the trough and the crest of the waves was twenty-five feet and visibility was very poor due to flying foam and scud from churning water. Thus instead of finding herself in the shelter of the bay she was now trapped, fully exposed to the wind and relying on one anchor only. As the *Hindlea*'s anchor began to drag, it soon became apparent that she was in great danger of being driven on to the rocks.

At 11:50 a.m. **Coxswain Richard Evans** (Dic Evans to the people of Moelfre) was informed by Captain Owen Roberts of the potential disaster awaiting the *Hindlea*. Such was the imminent danger to the ship that it





o'r criw wrtho nad oedd yr *Hindlea*'n ddibynadwy iawn mewn tywydd mawr. Dywedodd y dynion hefyd eu bod yn bwriadu symud y llong i lecyn mwy cysgodol ger gwylfa'r glannau, a dyna a wnaed yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.

Yn gynnar y bore ar 27ain o Hydref roedd yn dywydd mor stormus nes bod yr holl bentref yn crynu i'w seiliau. Er bod gwyliwr y glannau a chriw y bad achub yn gwybod y gallai tywydd o'r fath greu problemau, nid oeddent yn pryderu'n ormodol. Ond buan y newidiodd y sefyllfa pan drodd cyfeiriad y gwynt yn sydyn o'r de-orllewin i'r gogledd. Ni fyddai hyn yn digwydd yn aml, ond pan digwyddai byddai'r llongau ar y môr mewn perygl mawr. O fewn ugain i dri deg munud roedd yr holl longau a gysgodai yn y bae mewn sefyllfa beryglus dros ben. Nid mewn llecyn cysgodol yr oedden nhw bellach, ond yn hytrach mewn bae oedd yn agored i'r gwynt gyda thonnau enfawr yn dod o gyfeiriad Môr y Gogledd. Fu'r Capteiniaid fawr o dro cyn ymateb a dechreuodd y llongau gyda'r peiriannau mwyaf pwerus frwydro'n erbyn y tonnau a symud yn araf allan i'r môr. Ond nid felly yr *Hindlea*.

## Yr Hindlea mewn perygl

Y **Capten Owen Roberts** oedd yn digwydd bod ar ddyletswydd yn yr wylfa y diwrnod hwnnw. Roedd wedi ymddeol fel capten llong ac roedd ganddo brofiad helaeth o'r môr. Erbyn hyn roedd yr *Hindlea* yn union i'r gogledd-ddwyrain o'r wylfa, rhwng chwarter a hanner milltir o'r lan. O'i safle yn yr wylfa, gallai weld y llong yn glir ac roedd yn amlwg y byddai'n cael ei tharo a'i hysgwyd yn ddidrugaredd gan y gwynt nerthol a'r tonnau enfawr ac y byddai'n cael ei llusgo'n nes ac yn nes at y lan.

Roedd yr *Hindlea* yn siglo fel pendil ar gadwyn ei hangor gyda'r gwynt o gwmpas 80–90 milltir yr awr. Yn ôl yr hyn a gofnodwyd gan orsaf yr R.A.F. yn y Fali ac mewn ambell orsaf arall ar yr ynys, roedd cyflymder y gwynt cymaint â 104 milltir yr awr ar adegau. Yn ôl pob sôn, roedd y storm yn un mor ffyrnig nes bod y pellter rhwng gwaelod y tonnau a'u brig yn mesur pum troedfedd ar hugain ac roedd yn anodd iawn gweld gan fod ewyn a lluwch yn chwyrlio o'r tonnau gwyllt. Nid oedd unrhyw gysgod i'r *Hindlea* bellach, yn hytrach roedd ar drugaredd y storm, yn gwbl agored i'r gwynt ac yn dibynnu ar un angor. Wrth i angor yr *Hindlea* ddechrau ei llusgo, daeth yn gwbl amlwg ei bod mewn perygl mawr o gael ei gyrru tuag ar y creigiau.

Am 11.50 a.m. hysbyswyd y **Llywiwr Richard Evans** (Dic Evans i bobl Moelfre) gan y Capten Owen Roberts o'r trychineb posibl oedd yn wynebu'r *Hindlea*. Roedd hi mewn cymaint o berygl fel y lansiwyd bad achub Moelfre ar unwaith.

Y Watkin Williams oedd y bad achub ym Moelfre ar y pryd, bad

**"Yn gynnar y bore ar 27ain o Hydref roedd yn dywydd mor stormus nes bod yr holl bentref yn crynu i'w seiliau."**







**Moefre lifeboat station**
**Gorsaf bad achub Moelfre**

**"The *Edmund and Mary Robinson* was a reserve 41ft Watson class lifeboat and had only arrived in the village a few weeks earlier."**

was decided to launch the Moelfre lifeboat immediately.

The lifeboat normally stationed at Moelfre was the *Watkin Williams*, a 42ft. Watson class lifeboat, but as she was in the process of being refitted at Beaumaris, a temporary lifeboat was on duty in Moelfre. The *Edmund and Mary Robinson* was a reserve 41ft. Watson class lifeboat and had only arrived in the village a few weeks earlier. She was twenty-three years older than the *Watkin Williams* and had none of the modern navigational equipment which Coxswain Dic Evans was now used to. In addition, none of the crew had any knowledge of the reserve boat's strengths or weaknesses.

On the other hand, before being appointed full time at Moelfre, motor mechanic Evan Owens had been a relief mechanic for the RNLI. He therefore had an extensive knowledge of the specific peculiarities of different lifeboats' engines and also, fortuitously, knew a little of the *Edmund and Mary Robinson*'s history. She had undoubtedly been an excellent seaboat at one time but had obviously seen better days. Nevertheless, Evan Owens had given her a thorough inspection in preparing her for duty at Moelfre. Only the previous day he had spent hours putting in new spark plugs which he had ordered from London.

## The lifeboat crew

Whatever the strengths and weaknesses of the *Edmund and Mary Robinson*, her crew responded to the call and she was launched at exactly twelve o'clock.

The two crew members mentioned above were the only two full time employees of the RNLI in Moelfre. Coxswain Richard Evans, a Moelfre man, formerly a sailor and village butcher had the experience necessary to lead the crew. Evan Owens had married a Moelfre girl , settled in the village and had been station mechanic since 1946.

The *Edmund and Mary Robinson* normally needed a crew of eight but could probably cope with seven. On that particular day, many men were working away from the village. The very nature of Moelfre had changed as well; many men no longer went to sea so there were fewer experienced





achub dosbarth Watson 42 troedfedd. Ond yn digwydd bod, roedd yn y broses o gael ei ailffitio ym Miwmares ac felly bad achub dros dro oedd ym Moelfre y noson honno. Roedd yr *Edmund and Mary Robinson* yn fad achub dosbarth Watson 41 troedfedd wrth gefn ac ychydig wythnosau'n unig oedd ers iddi gyrraedd Moelfre. Roedd y bad yma dair blynedd ar hugain yn hŷn na'r Watkin Williams heb ddim o'r offer morlywio modern yr oedd y Llywiwr Dic Evans wedi arfer ag ef. Ar ben hynny, nid oedd gan y criw unrhyw brofiad o wendidau a chryfderau'r bad hwn.

Ond roedd y Peiriannydd Evan Owens, cyn iddo gael ei benodi yn beiriannydd amser llawn ym Moelfre, wedi bod yn gweithio fel peiriannydd wrth gefn ar gyfer yr RNLI ac roedd hynny'n golygu bod ganddo wybodaeth helaeth am beiriannau y gwahanol fadau achub, ac yn ffodus, fe wyddai ychydig am gefndir yr *Edmund and Mary Robinson*. Heb os roedd y cwch wedi bod yn fad achub penigamp ar un adeg, ond roedd yn amlwg wedi gweld ei ddyddiau gwell. Er hynny roedd Evan Owens wedi bod

**Criw yr *Edward and Mary Robinson* ar y diwrnod dramatig hwnnw. O'r chwith i'r dde, rhes gefn:**
**The crew of the *Edward and Mary Robinson* on that dramatic day. From left to right, back row:**
**HUGH JONES**
**HUGH OWEN.**
**Rhes Flaen/Front:**
**DICK EVANS,**
**MURLEY FRANCIS**
**EVAN OWENS**



seamen in the village. Moreover, there was a tremendous sense of urgency by now since the *Hindlea* would soon be on the rocks. Thus the *Edmund and Mary Robinson* was launched not with a crew of eight, nor even with a crew of seven – but with a crew of five!

In addition to Coxswain Dic Evans and Motor Mechanic Evan Owens the other crew members that day were **Murley Francis**, **Hugh Owen** and **Hugh Jones**.

The 2nd Coxswain, Murley Francis, also a Moelfre man was an engineer fitter. He was working in Amlwch, around eight miles away when he heard that any auxiliaries or coastguards should proceed to Moelfre at once. He rushed there on his motorbike.

Hugh Owen, the bowman, another Moelfre man had been a member of the lifeboat crew for several years. He was a stonemason by trade but at this time was working for the county council. Coxswain Dic Evans knew where he was working that day and had gone to fetch him. With Hugh Owen was a fellow council worker Hugh Jones.

Hugh Jones was normally a




**The *Edward and Mary Robinson***
**Yr *Edward and Mary Robinson***





yn brysur yn ei archwilio'n drylwyr, a'r diwrnod cynt roedd wedi treulio oriau'n gosod plygiau tanio newydd wedi'u harchebu o Lundain.

## Criw y bad achub

Er gwaethaf gwendidau a chryfderau'r *Edmund and Mary Robinson*, roedd y criw yr un mor barod eu hymateb ag arfer, a chafodd y bad achub ei lansio am ddeuddeg o'r gloch ar ei ben.

Dim ond y ddau aelod o'r criw a enwyd uchod a weithiai'n llawn amser i'r RNLI ym Moelfre. Roedd Richard Evans yn hanu o Foelfre ac wedi bod yn forwr ac yn gigydd yn y pentref ac roedd yn aelod gwerthfawr o'r bad achub. Ar y llaw arall roedd Evan Owens wedi priodi merch o Foelfre ac wedi ymgartrefu yn y pentref gan dderbyn swydd fel peiriannydd yr orsaf ers 1946.

Roedd yr *Edmund and Mary Robinson* gan amlaf angen criw o wyth, neu saith o leiaf. Y diwrnod hwnnw roedd nifer o'r dynion i ffwrdd yn gweithio. Erbyn hyn roedd llawer llai o ddynion yn mynd i weithio ar y môr ac o ganlyniad roedd llai o forwyr profiadol yn y pentref. Pan lansiwyd yr *Edmund and Mary Robinson* y noson honno, nid criw o wyth oedd arni, na chriw o saith hyd yn oed – ond yn hytrach criw o bump!

Yn ogystal â Dic Evans ac Evan Owens, y tri aelod arall o'r criw oedd **Murley Francis**, **Hugh Owens** a **Hugh Jones**.

Roedd Murley Francis, gŵr o Foelfre, yn ffitiwr peirianyddol ac yn ail lywiwr. Roedd yn gweithio yn Amlwch, tua wyth milltir i ffwrdd pan glywodd y newydd bod angen i unrhyw wylwyr y glannau a gweithwyr cynorthwyol fynd i Foelfre ar unwaith. I ffwrdd ag ef ar ei feic modur ar frys.

Roedd Hugh Owens, y bowman, hefyd yn un o wŷr Moelfre ac roedd wedi bod yn aelod o griw y bad achub am ddegawdau lawer. Yr oedd yn saer maen yn ôl ei alwedigaeth ond gweithiai ar y pryd i'r cyngor sir. Gwyddai Dic Evans lle digwyddai weithio y diwrnod hwnnw ac aeth i'w nôl. Yn ei gwmni roedd gŵr arall a oedd yn gweithio i'r cyngor, sef Hugh Jones.

Roedd Hugh Jones, fel arfer yn gwirfoddoli i gynorthwyo ar y llithrfa yng ngorsaf y bad achub. Pan gyrhaeddodd y dynion roedd peiriannau'r *Edmund and Mary Robinson* eisoes wedi'u tanio a chytunwyd i lansio'r bad heb oedi. Dyma'r tro cyntaf yn ei fywyd i Hugh Jones fod ar fad achub, ond cytunodd er hynny i fod yn un o'r criw. Dyma fedydd tân fel y dywedodd Evan Owens:

"Mi fydd gen i barch tuag ato fo hyd y dydd heddiw am yr hyn wnaeth o."

## Y Lansio

Gwisgodd y dynion eu siacedi achub gan ddringo ar fwrdd y bad a chlymodd Dic Evans ei hun yn sownd yn y llyw. Dilynwyd y drefn arferol cyn lansio ond gwyddai pawb yn ei galon nad achlysur 'arferol' fyddai hwn.

**"Roedd yr *Edmund and Mary Robinson* yn fad achub dosbarth Watson 41 troedfedd wrth gefn ac ychydig wythnosau'n unig oedd ers iddi gyrraedd Moelfre."**





volunteer slipway assistant in the lifeboat station. When the men arrived at the lifeboat station the Edmund and Mary Robinson's engines were already running and it was agreed to launch without delay. Hugh Jones had never been in the lifeboat in his life but he readily agreed to go as a crew member. This was truly a baptism of fire which earned him this tribute from Evan Owens: "I honour him to this day for what he did."

## The launch

The men put on their life jackets and climbed aboard while Coxswain Dic Evans lashed himself to the wheel. They were following the usual routines before launching but they were aware that this, potentially, was far from being a routine rescue.

The conditions for launching were far from perfect with the wind blowing on to the shore. The lifeboat was launched with Coxswain Dic Evans in command. As soon as the boat hit the water, the crew set up the radio mast. Coxswain Dic Evans steered north into the gale, climbing up waves and then descending into the troughs, but the *Edmund and Mary Robinson* continued to plough through the seas, going up and down relentlessly. Although spray, foam and scud hit the boat unceasingly, the small screen in front of Coxswain Dic Evans offered some protection and visibility. The sea conditions were such that the crew was constantly thrown about under the canopy.

**"Hugh Jones had never been in the lifeboat in his life but he readily agreed to go as a crew member… Evan Owens said: *'I honour him to this day for what he did.'*"**

Nevertheless, despite the seas and her age, the *Edmund and Mary Robinson* had her strengths. She was an excellent seaboat, with a high forecastle, and despite climbing high seas of 35 feet and diving the other side, she was 'as dry as a bone' according to Evan Owens. The lifeboat's strengths and the skills and courage of her crew were soon to be tested to the full.

## Abandon ship?

Having passed Ynys Moelfre (Moelfre Island), the *Edmund and Mary Robinson* headed directly for the *Hindlea* that was by now around one and a half miles north of the island. After half an hour of ploughing through heavy seas she reached the *Hindlea*. The ship's crew could see the lifeboat by now but only intermittently before the ship plunged into the next deep trough. By now the ship was lying to her starboard anchor in eight fathoms of water but this one anchor was not holding. Her engines were working flat out in an effort to take some of the strain off the anchor cable. With her engines on full ahead she was rolling violently from side to side and heavy seas were breaking over her.

In the words of Aled Eames, "the coaster was yawing some 90 degrees and the engines were racing violently, which did little to reduce the weight on her cable. Because of the violent



**Yr *Hindlea* ar y creigiau yn cael ei tharo'n arw gan y môr ar ôl achub y criw oedd arni**
**The *Hindlea* on the rocks being battered by the seas after the rescue**

Gyda'r môr yn chwythu tua'r lan roedd yr amodau ymhell o fod yn berffaith, a dweud y lleiaf. Lansiwyd y bad achub gyda Dic Evans wrth y llyw. Cyn gynted ag yr oedd y bad yn y dŵr, aeth y criw ati i osod y mast radio. Llywiodd Dic Evans i'r gogledd i ddannedd y gwynt cryf, gyda'r *Edmund and Mary Robinson* yn brwydro'i ffordd drwy'r tonnau ffyrnig. Roedd y sgrîn fechan o flaen Dic Evans yn rhoi mymryn o gysgod iddo fel y gallai weld o'i flaen, ond er hynny roedd yn chwythu'n lluwch a dawnsiai'r ewyn a'r llwch dŵr gan ei daro'n ddidrugaredd. Roedd y tonnau'n chwipio a'r môr yn berwi i'r fath raddau nes bod y criw'n cael eu lluchio'n gyson o dan y canopi.

Ond er gwaethaf y môr ac oed y cwch, roedd gan yr *Edmund and Mary Robinson* ei gryfderau. Roedd yn fad arbennig gyda fforcas uchel, ac er ei fod yn dringo'r tonnau uchel 35 troedfedd ac yn plymio drachefn, roedd y cwch, yn ôl Evan Owens, ☛







**An aerial view of the *Hindlea* after the crew had been rescued**
**Golygfa o'r awyr o'r *Hindlea* ar ôl i'r criw gael eu hachub**

motion the cable was constantly whipping clear of the rough broken water. Heavy seas breaking over the *Hindlea* made it impossible for her crew to come forward to let go of the second anchor."

As the ship slowly found herself moving towards the rocks and shallow water, **Captain Roland Chipchase** from Tyneside gave orders to abandon ship. The crew now moved carefully along her port side and assembled on the port side of the poop deck. The Moelfre lifeboat had been standing by for almost an hour and a half on the *Hindlea*'s starboard beam.

Coxswain Dic Evans knew that this delay would further endanger the rescue of the *Hindlea*'s crew. Had they been 500 yards further out then it would have been far easier to go to her aid.

Captain Chipchase's reluctance to abandon ship earlier was understandable. He was directly responsible for the ship, the crew and her cargo. He owed his allegiance to the ship's owners. He did not wish to abandon ship lest the wind changed, thus diminishing the danger; he considered the possibility ☛

# WILD COAST TOUR OF MOELFRE
# TAITH ARFORDIR GWYLLT MOELFRE

- **Length of walk - 3 miles along coastal path**
- **Care should be taken on uneven footpaths and near the cliffs.**

---

## 1 OLD LIFEBOAT STATION

There has been a lifeboat in Moelfre since the 1830s – the early boats were sail and oar boats which demanded brave men to sail them.

## 2 NEW LIFEBOAT STATION

All types of lifeboats have ben launched from here. There have been many famous rescues – including saving the Excel in 1927 and the Nafsiporos in 1966.

## 3 PORTH LYDAN

During the 1920s a ship called the John Ewing went aground here. The villagers took advantage of the situation by unloading her cargo of coal. Coal was hidden everywhere around the village!

## 4 Y SWNT

Oral tradition tells us that two old women who lived in a cottage on Y Swnt were kidnapped by a foreign vessel.

## 5 HINDLEA

Site of the rescue of the crew of the *Hindlea* in 1959. The crew were saved by the bravery of Coxswain Dic Evans and his crew in winds of over 100 mph. Dic Evans was awarded the RNLI's gold medal and the rest of the crew were also decorated. The remains of the ship can still be seen at low tide.

- **Pellter y daith - 3 milltir ar hyd llwybr yr arfordir**
- **Dylid cymryd gofal ar lwybrau anwastad ac wrth y clogwyni.**

---

## 1 HEN GWT BAD ACHUB

Mae bad achub wedi bod yn y pentref er y 1830au – llongau hwyliau a rhwyfo oedd y rhain a oedd yn gofyn am ddynion dewr i'w hwylio.

## 2 CWT BAD ACHUB PRESENNOL

Mae badau achub o bob math wedi hwylio oddi yma. Bu sawl achubiaeth enwog – achub yr Excel yn 1927 a'r Nafsiporos yn 1966.



Teithiau Treftadaeth
MOELFRE
Heritage Walks



6
Cofeb
Royal Charter
Memorial
Parc Carafannau
Caravan Park
Porth Helaeth
5
Bythynnod
Cottages
4
Y Swnt
3
Porth Lydan
2
Gorsaf Bad Achub
Lifeboat Station
MOELFRE
P
Gwylfan
Seawatch
8
1
Hen Orsaf
Bad Achub
Old Lifeboat
Station
Beach
Traeth
P
7
P
Gwynlys
1
Menter Môn
PARTNERIAETH MOELFRE PARTNERSHIP
THE CARNEGIE UNITED KINGDOM TRUST

Teithiau Treftadaeth

# MOELFRE

Heritage Walks

## WILD COAST TOUR OF MOELFRE

## TAITH ARFORDIR GWYLLT MOELFRE






# WILD COAST TOUR OF MOELFRE
# TAITH ARFORDIR GWYLLT MOELFRE

## 6 ROYAL CHARTER

The Royal Charter sank off the rocks below in 1859  with the loss of over 400 lives. One journalist who came to report on the tragedy was Charles Dickens. The story of his visit, in his own words, can be found in his book The Uncommercial Traveller.

## 7 MEMORIAL

The memorial opposite the beach reminds us of the dangers faced by sailors in two world wars.  Although most Moelfre men were merchant seamen there were some who served in the Navy.

## 8 PEN STRYD

The home of Thomas Lewis  'Twm Penstryd – one of three to survive the Cospatrick tragedy of 1874 by cannibalism.

Teithiau Treftadaeth
MOELFRE
Heritage Walks



## 3 PORTH LYDAN

Yn ystod y 1920au aeth llong o'r enw John Ewing ar y creigiau yma. Manteisiodd y pentrefwyr ar y sefyllfa trwy ddadlwytho'r glo oedd ar ei bwrdd. Roedd y glo yn cael ei guddio ym mhobman o amgylch y pentref.

## 4 Y SWNT

Yn ôl traddodiad llafar cafodd dwy hen wreigan a drigai mewn bwthyn ar y Swnt eu herwgipio gan long dramor.

## 5 HINDLEA

Safle achub criw yr *Hindlea* yn 1959. Achubwyd criw'r llong gan ddewrder y Coxswain Dic Evans a'i griw mewn gwyntoedd o dros 100 milltir yr awr. Derbyniodd Dic Evans fedal aur yr RNLI a gwobrwywyd gweddill y criw yn ogystal.  Ar lanw isel gallwch weld gweddillion y llong o hyd.

## 6 ROYAL CHARTER

